CYFRES B6

# amserbeibl

## Astudiaethau Beiblaidd – Safon 4



Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran ______ Dyddiad geni ______

Enw ______

Cyfeiriad ______

______

Enw Arweinydd y Dosbarth ______

Astudiaethau Beiblaidd o Genesis

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th




DARLLENWCH
Genesis 29: 1-30



ADNOD ALLWEDDOL
Galatiaid 6: 7

## Astudiaeth 1 Jacob a'i Deulu – Yn Haran



**Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen**
Salm 27 Mathew 19: 5 a 6 Rhufeiniaid 7


Yn yr astudiaethau hyn, rydyn ni'n cwrdd â dyn o'r enw Jacob. Mae wedi dianc o'i gartref. Roedd Jacob wedi twyllo ei dad, Isaac, ac wedi twyllo'i frawd, Esau, hefyd er mwyn cael y fendith arbennig y dylai Esau fod wedi'i chael.
Gan fod Esau'n bygwth lladd Jacob, anfonodd eu mam, Rebeca, Jacob i ffwrdd i aros gyda'i ewythr oedd yn byw yn Haran (neu Padan-Aram) ym Mesopotamia. Yma, byddai'n ddiogel oddi wrth Esau ac efallai y byddai'n dod o hyd i wraig o blith perthnasau ei fam.

## CROESAIR

**Llanwch y CROESAIR i weld beth ddigwyddodd nesaf.**

**Cliwiau i Lawr**
1. Beth oedd dros geg y pydew?
4. Enw ewythr Jacob.
6. Roedd hwn yn y pydew.
8. O ble roedd y bugeiliaid yn dod?

**Cliwiau ar Draws**
2. Beth oedd maint 1 i lawr?
3. Pwy oedd y ferch ddaeth gyda'r defaid?
5. Sut aeth y ferch nôl at ei thad?
7. Sawl diadell oedd yn gorwedd ger y pydew.




8

Daeth Jacob a Rachel i nabod ei gilydd o dan amgylchiadau rhyfedd iawn. Pe bai Jacob wedi mynd at bydew arall neu wedi cyrraedd ychydig yn hwyrach, fe fyddai wedi'i cholli!
Ond ni ddigwyddodd hynny!

**C Pam? Ticiwch y blwch cywir.**

| | Ie | Na |
|---|---|---|
| Ai achos bod Jacob wedi amseru'r daith yn dda? | | |
| Ai cyd-ddigwyddiad oedd e? | | |
| Ai Duw oedd wedi trefnu'r cyfan? | | |

1

Efallai nad oedd Jacob yn sylweddoli hynny, ond roedd Duw yn rheoli'r sefyllfa.

Cafodd Jacob groeso yng nghartref Laban a phenderfynodd aros yno. Roedd ei dad wedi dweud wrtho am chwilio am wraig ymhlith merched Laban ac roedd Duw wedi ei arwain at ferch yr oedd yn ei charu ac yn dymuno'i phriodi.

**C Am sawl blwyddyn oedd Jacob yn barod i aros am y fraint hon?** 1

Yn y diwedd, cyrhaeddodd diwrnod y briodas. Roedd Jacob yn mynd i briodi Rachel.

**C Rhowch ✔ neu ✘ i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn gywir ai peidio:-** 5

Trefnodd Laban wledd fawr. ...............

Rachel oedd gwraig gyntaf Jacob. ...............

Dywedodd Laban ei bod yn rhaid i'r ferch ieuengaf briodi gyntaf. ...............

Cafodd Jacob ei dwyllo gan Laban i briodi Leah. ...............


Gweithiodd Jacob am saith mlynedd arall er mwyn cael Rachel yn wraig iddo. ...............

**Yn y dyddiau hynny, roedd gan rai dynion fwy nag un wraig ond doedd hynny ddim yn rhan o gynllun Duw. Bwriad Duw oedd mai dim ond un wraig y dylai dyn ei chael.** Gweler Mathew 19: 5 & 6

Roedd Jacob wedi twyllo Isaac, ei dad, flynyddoedd yn gynt a nawr roedd Laban wedi'i dwyllo ef.

**C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol a thanlinellwch y rhan sy'n ein hatgoffa y bydd y pethau drwg yr ydyn ni wedi'i wneud i bobl eraill yn siwr o ddal i fyny â ni.** 3

Daeth yn bryd i Jacob adael Laban. Roedd Jacob wedi treulio 20 mlynedd gydag ef a daeth yn bryd iddo symud ymlaen.



**C Beth ddywedodd Duw wrtho am ei wneud? (Genesis 31: 3)** 1

Bu Jacob a'i wragedd yn trafod beth yr oedd Duw wedi dweud wrtho am ei wneud.

**C Darllenwch ddiwedd Genesis 31: 16 ac ysgrifennu sut wnaeth y gwragedd ymateb.** 1

Mae'n edrych yn debyg bod dau rym yn gweithio ym mywyd Jacob. Yn gyntaf, roedd grym ei ewyllys ei hunan a oedd yn aml yn ei gael i drafferth. Yna, roedd grym ewyllys Duw ond, gwaetha'r modd, nid oedd yn talu llawer o sylw i hwn.

**Ydych chi'n gwneud ewyllys Duw?**

**cyfanswm**